# Cyngor Sir y Fflint

## Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021



Dyma ein crynodeb archwilio ar gyfer Cyngor Sir y Fflint.
Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021. Mae ein crynodeb archwilio yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar gael ar ein gwefan.

# Ynglŷn â'r Cyngor

## Rhai o'r gwasanaeth y mae'r Cyngor yn eu darparu



**Ffeithiau allweddol**

Mae'r Cyngor yn cynnwys 70 o gynghorwyr sy'n cynrychioli'r pleidiau/grwpiau gwleidyddol canlynol:

- Llafur Cymru 35
- Ceidwadwyr Cymreig 6
- Democratiaid Rhyddfrydol Cymru 6
- Cynghrair Annibynnol 16
- Annibynwyr Newydd 3
- Annibynwyr 3
- Ddim yn aelod o unrhyw grŵp gwleidyddol o fewn Cyngor Sir y Fflint 1

Gwariodd y Cyngor £271.8 miliwn ar ddarparu gwasanaethau[1] yn ystod 2020-21, sef y chweched gwariant uchaf o'r 22 cyngor unedol yng Nghymru.

[1] Rydym yn diffinio gwario ar wasanaethau fel cost gwasanaethau a godir ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Cyllid Gwariant, llai unrhyw gost Cyfrif Refeniw Tai o wasanaethau, ynghyd â praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion.

**Ffeithiau allweddol**

Ar 31 Mawrth 2021, roedd gan y Cyngor £38.5 miliwn o gronfeydd ariannol defnyddiadwy[2]. Mae hyn yn cyfateb i 14.2% o wariant blynyddol y Cyngor ar wasanaethau, y bedwaredd ganran isaf o'r 22 cyngor unedol yng Nghymru.[3]

Mae gan Sir y Fflint dair o'i 92 ardal sydd yn 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, dyma'r pumed isaf o'r 22 cyngor unedol yng Nghymru[4].

Rhagwelir y bydd poblogaeth Sir y Fflint yn cynyddu 3.1% rhwng 2020 a 2040 o 156,444 i 161,258, gan gynnwys gostyngiad o 5.1% yn nifer y plant, gostyngiad o 2.9% yn nifer y boblogaeth o oedran gweithio a chynnydd o 27% yn nifer y bobl 65 oed a hŷn[5].

# Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

## Rydym yn cwblhau gwaith yn ystod 2020-21 i gyflawni'r dyletswyddau canlynol

- **Gwelliant parhaus**

  Bu'n rhaid i'r Cyngor sefydlu trefniadau i wneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, a bu'n rhaid hefyd i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a oedd y Cyngor yn bodloni'r gofynion hyn yn ystod 2020-21.
- **Archwilio Cyfrifon**

  Bob blwyddyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei gyfrif yn briodol.
- **Gwerth am arian**

  Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried a yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian ar gyfer yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid iddo fod yn fodlon ei fod wedi gwneud hyn.

[2] Rydym yn diffinio cronfeydd ariannol y gellir eu defnyddio fel cronfeydd wrth gefn y gellid eu defnyddio ar gyfer costau refeniw, lle nad yw'r diben yn cael ei ddiogelu gan y gyfraith. Dyma gyfanswm y gronfa gyffredinol, cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a balansau ysgolion. Nid yw'n cynnwys cronfeydd wrth gefn Cyfrif Refeniw Tai, derbyniadau cyfalaf a grantiau cyfalaf heb eu defnyddio.

[3] Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon 2020-21

[4] Diffinnir ardal yn y cyd-destun hwn fel 'Ardal Cynnyrch Ehangach Is'. Ffynhonnell: StatsCymru

[5] Ffynhonnell: StatsCymru

- **Egwyddor datblygu cynaliadwy**

  Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maen nhw'n gwneud hyn.

Rydym yn parhau i gydnabod y straen enfawr ar wasanaethau cyhoeddus ac i weithio mewn ffordd sy'n ceisio lleihau yr effaith ar ymateb cyrff cyhoeddus i COVID-19, gan barhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol.

**Er mwyn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol rydym yn cwblhau prosiectau penodol, ond rydym hefyd yn dibynnu ar waith archwilio arall, a gwaith rheoleiddwyr megis Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn (yr arolygiaeth addysg). Rydym yn ystyried canfyddiadau ein gwaith archwilio wrth asesu a yw'r cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian. Mae ein canfyddiadau a'n casgliadau wedi'u crynhoi isod.**

# Yr hyn a ganfuwyd gennym

## Archwiliad o Gyfrifon 2020-21 Cyngor Sir y Fflint

Bob blwyddyn rydym yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor.

### Ar gyfer 2020-21:

- rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod gwir a theg ar ddatganiadau ariannol y Cyngor ar 29 Medi 2021, ddau fis cyn y dyddiad cau statudol.
- paratowyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif y Cyngor yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan y Cyngor a gyda'n gwybodaeth am y Cyngor.
- roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio ar 15 Mehefin 2021 wedi'u paratoi i safon dda. Roedd hyn yn gyflawniad sylweddol o ystyried yr heriau parhaus a ddaw yn sgil pandemig COVID-19.
- gwnaed nifer o newidiadau i ddatganiadau ariannol y Cyngor yn deillio o'n gwaith archwilio, a adroddwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Medi 2021.
- cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol y dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o gyfrifon ar gyfer 2020-21 wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2021.
- Yn ogystal â chyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol dros archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, mae hefyd yn gyfrifol am ardystio nifer o hawliadau grant a ffurflenni. Nid yw ein gwaith hyd yma wedi nodi unrhyw faterion o bwys.

## Ein gwaith mewn ymateb i bandemig COVID-19

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, newidiwyd dull a chanolbwynt ein gwaith archwilio perfformiad mewn llywodraeth leol a chyrff eraill. Isod ceir crynodeb o rywfaint o'r gwaith yr ydym wedi'i wneud mewn ymateb i'r pandemig ar draws nifer o sectorau, y mae llawer ohonynt yn berthnasol i lywodraeth leol.

Gwnaethom gynnal prosiect i gynorthwyo ymdrechion y sector cyhoeddus drwy rannu dysgu drwy'r pandemig. Nod y prosiect yw helpu i ysgogi rhywfaint o ystyried, a chyfnewid arfer. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan.

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddwyd adroddiad cenedlaethol gennym yn nodi trosolwg o'r cynnydd hyd yma ar Brofi, Olrhain, Diogelu yng Nghymru. Ym mis Rhagfyr 2020, gwnaethom hefyd gyhoeddi rhai sylwadau gan yr Archwilydd Cyffredinol ar y ffordd y cafodd cyfarpar diogelu personol ei wneud a'i gyflenwi yn ystod pandemig COVID-19, ac yna adroddiad ym mis Ebrill 2021. Ym mis Mehefin 2021, gwnaethom hefyd gyhoeddi ein hadroddiad ar y rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru.

## Gwelliant parhaus

Ardystiodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 sy'n weddill ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21, fel y'i cadwyd gan orchymyn a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Fel rhan o'n harchwiliad o asesiadau perfformiad cynghorau ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, nodwyd gostyngiad yn y cyfeiriad at wybodaeth gymharol o ran perfformiad er ein bod yn cydnabod bod y pandemig wedi arwain at atal rhywfaint o gasglu data cenedlaethol. Bydd y gallu i gymharu data a pherfformiad â sefydliadau eraill yn parhau i fod yn elfen bwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian a bydd yn her i gynghorau ei hystyried yn enwedig wrth iddynt barhau i weithredu'r gofynion sy'n ymwneud â hunanasesu a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## Cynaliadwyedd ariannol

Yn ystod 2020-21, buom yn archwilio cynaliadwyedd ariannol pob cyngor yng Nghymru. Yn ein hadroddiad lleol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021, daethom i'r casgliad bod y Cyngor yn canolbwyntio ar wella ei gadernid ariannol drwy fynd i'r afael â phwysau cyllidebol mewn meysydd gwasanaeth allweddol a arweinir gan y galw.

Gwnaethom hefyd gyhoeddi dau adroddiad cryno cenedlaethol: yr adroddiad cyntaf ym mis Hydref 2020 a'r ail adroddiad ym mis Medi 2021.

## Cynllunio adferiad

Yn ystod 2020-21, gwnaethom adolygu'r trefniadau yr oedd pob cyngor yng Nghymru yn eu rhoi ar waith i gefnogi cynllunio adferiad. Gwnaethom y gwaith hwn yn barhaus, gan ddarparu adborth amser real a pharhaus pan fo hynny'n briodol. Ein canfyddiadau allweddol oedd bod cyfathrebu'r Cyngor â'r cyhoedd a thrigolion yn ystod y pandemig wedi bod yn gyson, yn glir ac yn arloesol. Mae'r Cyngor bellach wedi 'datgloi' llawer o'i wasanaethau allweddol yn ofalus yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac wedi nodi beth fydd yn wahanol wrth i staff ddychwelyd i'r gwaith i'w cadw'n ddiogel. Mae ailagor gwasanaethau wedi datblygu'n dda, unwaith eto wedi'i helpu gan strategaeth gyfathrebu glir.

Mae adferiad Cyngor Sir y Fflint o effaith y pandemig wedi elwa ar arweinyddiaeth gref a chyson, yn enwedig wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau. Bu ymgyrch i ymgysylltu ac arwain grwpiau rhanbarthol sy'n gadarnhaol. Mae cyfathrebu mewnol ac allanol wedi bod yn gryf iawn ac mae er clod i'r Cyngor.

Rydym o'r farn bod dull y Cyngor o wella wedi'i strwythuro'n dda ac wedi'i ystyried yn dda. Mae'r Cyngor wedi cymryd yr amser i fyfyrio ar ei weithredoedd ymateb a dysgu oddi wrthynt. O ganlyniad, pe bai angen dychwelyd i'r modd ymateb i reoli unrhyw atgyfodiad o'r feirws, bydd y Cyngor mewn sefyllfa well i ddelio â'r argyfwng nag yr oedd o'r blaen.

Rydym yn annog y Cyngor i chwilio am gyfleoedd i wneud pethau'n wahanol o ganlyniad i'r hyn a ddysgwyd drwy argyfwng COVID-19, ac i beidio â dychwelyd gwasanaethau'n awtomatig i'r ffordd yr oeddent o'r blaen.

Mae cyfleoedd i gynnal y momentwm a dysgu o 'ddemocratiaeth ddigidol'. Mae'r rhan fwyaf o gynghorwyr wedi dangos eu gallu i gofleidio'r defnydd o dechnoleg ar gyfer cyfarfodydd ar-lein. Efallai y bydd cyfleoedd pellach i gael mewnweledigad gan aelodau'r cyngor ar unrhyw ddatblygiad a hyfforddiant a allai eu helpu i gymryd rhan yn fwy effeithiol mewn cyfarfodydd ar-lein.

Mae rhai heriau o ran cynnal cyfarfodydd ffurfiol ar-lein yn unig ac ar hyn o bryd efallai y bydd cyfleoedd i gael cipolwg ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn. Gallai ymgysylltu ymhellach â'r cyhoedd i gasglu barn am eu profiadau o arsylwi cyfarfodydd yn ystod y cyfnod hwn hefyd helpu i roi adborth amserol ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn o'u safbwynt nhw.

## Incwm Rhent

Yn ystod 2020-21, gwnaethom adolygiad i ystyried effeithiolrwydd strategaeth incwm rhent y Cyngor. Ym mis Mawrth 2021, daethom i'r casgliad bod y Cyngor wedi peidio â chynyddu ôl-ddyledion rhent tenantiaid y Cyngor ond mae ganddo gyfleoedd pellach i wella perfformiad ac ymgysylltu â thenantiaid.

## Comisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn

Yn ystod 2020-21, buom yn archwilio a oedd cynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) fel partneriaid yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cydweithio'n effeithiol wrth gomisiynu lleoliadau cartrefi gofal pobl hŷn yn strategol. Daethom i'r casgliad bod partneriaid yn gweithio'n unigol ac ar y cyd i ddarparu lleoliadau cartrefi gofal i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n agored i niwed, gwneir hyn yn anos gan brosesau cenedlaethol cymhleth, gan arwain at bwyslais sylweddol ar gostau, sy'n achosi rhaniad ymhlith partneriaid ac sydd â'r potensial o gael effaith andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd. Mae gan gryfhau atebolrwydd a datblygu strategaeth a chynllun cyflawni rhanbarthol y potensial i ysgogi newid cadarnhaol a gwell gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig mewn perthynas â gofal cymhleth a mwy arbenigol.

Wrth gloi'r gwaith hwn, roeddem yn cydnabod bod y cyfrifoldeb am yr heriau presennol yn y trefniadau comisiynu yn gyffredin. Mae Llywodraeth Cymru yn pennu'r fframwaith cenedlaethol sy'n gymhleth ac mae partneriaid lleol yn gyfrifol am y ffordd y caiff polisi a chanllawiau cenedlaethol eu gweithredu. Felly, rydym wedi adrodd yn lleol i gynghorau a'r Bwrdd Iechyd, ac yn genedlaethol i Lywodraeth Cymru yn argymell camau y dylai'r cyrff hyn eu cymryd.

## Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Adolygiad Cynnydd o Fargen Twf Gogledd Cymru

Yn ystod 2020-21 ceisiwyd ateb y cwestiwn: 'Wrth gyflawni ei nodau cyffredinol, a yw Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB) yn barod ac yn gallu addasu i fodloni'r amgylchiadau economaidd newidiol? 'Daethom i'r casgliad yn ein hadroddiad fod gan NWEAB drefniadau llywodraethu clir a sefydledig ac fe'i cefnogir gan Swyddfa Rheoli Portffolio sy'n datblygu; gall ffactorau allanol effeithio ar yr uchelgeisiau arfaethedig ac mae NWEAB yn addasu i ddarparu ar gyfer y rhain.

## Arolygiaethau eraill

Gwnaethom hefyd ystyried adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Estyn yn ogystal ag unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y Cyngor mewn ymateb. Cyhoeddodd AGC ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru eu hadolygiad cenedlaethol ar y cyd ar ddefnyddio Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yng Nghymru. Nodwyd nifer o ganfyddiadau ac argymhellion allweddol yn eu hadroddiad. Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd AGC hefyd 'Gadewch i mi ffynnu', adolygiad cenedlaethol o gymorth cynnar, gofal a chymorth a phontio i blant anabl yng Nghymru. Ym mis Tachwedd 2021 cyhoeddodd AGC ei llythyr gwirio sicrwydd ar gyfer y Cyngor sy'n crynhoi canfyddiadau gwiriad sicrwydd AGC a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2021. Diben y gwiriad sicrwydd hwn yw adolygu pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a lles. Mae AGC wedi nodi cryfderau a meysydd i'w gwella â blaenoriaeth a byddant yn adolygu cynnydd y meysydd hyn drwy eu cyfarfodydd adolygu gwerthuso perfformiad gyda phenaethiaid gwasanaeth a chyfarwyddwr y Cyngor. Mae AGC yn disgwyl i'r meysydd gwella y maent wedi'u nodi gael eu cynnwys yng nghynlluniau gwella'r Cyngor. Ni chafwyd unrhyw arolygiadau eraill gan Gyngor Sir y Fflint yn y cyfnod hwn, ond mae Estyn wedi ailddechrau arolygu ysgolion lleol yn Sir y Fflint, ac mae gwasanaethau sydd wedi'u cofrestru gydag AGC yn Sir y Fflint yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

## Astudiaethau llywodraeth leol

Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob cyngor, bob blwyddyn rydym hefyd yn cynnal astudiaethau ar draws y sector llywodraeth leol i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian. Ers yr adroddiad gwella blynyddol diwethaf, rydym wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol:

## Gwasanaethau dewisol (Ebrill 2021)

Mae pwysau ariannol wedi arwain at gynghorau'n lleihau gwariant a thorri gwasanaethau, ond mae'r pandemig wedi dangos bod gwasanaethau llywodraeth leol yn hanfodol i gadw pobl yn ddiogel ac yn iach. Canolbwyntiwyd ar sut mae cynghorau'n diffinio gwasanaethau, y systemau a'r prosesau y maent wedi'u defnyddio i adolygu gwasanaethau a pha mor gadarn yw'r rhain. Mae'r galw am rai gwasanaethau hanfodol yn parhau i gynyddu ac nid yw cynghorau'n hyderus y gallant barhau i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn wyneb y galw cynyddol a chymhleth hwn. Mae angen i gynghorau fanteisio ar y cyfle i adnewyddu, ailbrisio ac ailosod yr hyn y maent yn ei wneud a dysgu o'r pandemig er mwyn adeiladu dyfodol gwell. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Ebrill 2021.

## Adfywio canol trefi yng Nghymru (Medi 2021)

Rhwng 1950 a 1980, blaenoriaethodd awdurdodau lleol adfywio canol trefi gan greu mannau manwerthu newydd a mwy. Fodd bynnag, mae dewisiadau polisi yn y gorffennol, disgwyliadau newidiol defnyddwyr a datblygiadau technolegol bellach yn cael effaith andwyol ar lawer o ganol trefi Cymru. Ac mae'r pandemig wedi creu heriau i lywodraeth leol a llywodraeth ganolog, gydag un o bob saith siop ar strydoedd mawr Cymru bellach yn wag, er i Lywodraeth Cymru fuddsoddi ac ysgogi £892.6 miliwn yn ystod y saith mlynedd diwethaf. Nid oes gan awdurdodau lleol y gallu i ymateb i'r sefyllfa hon ac nid ydynt bob amser yn defnyddio'r pwerau sydd ganddynt i helpu i adfywio trefi. Er mwyn sicrhau'r canlyniadau lleol gorau, mae angen alinio polisïau a chydweithio, a blaenoriaethu adnoddau ar ganol trefi. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Medi 2021.

## Gwaith wedi'i gynllunio ar gyfer 2021-22

Buom hefyd yn edrych ar yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r Cyngor. Gallai'r rhain gael effaith ar allu'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r defnydd o'i adnoddau.

Y risg a'r mater mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu cynghorau a'r sector cyhoeddus ehangach yn ystod 2021-2 2 yw pandemig COVID-19 o hyd. Rydym wedi llunio ein gwaith i roi sicrwydd a her mewn ffordd sy'n helpu i gefnogi'r Cyngor drwy'r cyfnod hwn. Mae ein gwaith arfaethedig ar gyfer 2021-22 yn cynnwys:

- Sicrwydd ac asesu risg gan gynnwys canolbwyntio ar:
  - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
  - Cynllunio adferiad
  - Cynlluniau lleihau carbon
  - Trefniadau hunanasesu
  - Sefyllfa ariannol
- Llamu Ymlaen – wrth i'r byd yn symud ymlaen, gan ddysgu o'r pandemig, mae'r adolygiad hwn yn edrych ar ba mor effeithiol y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y gwaith o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chymunedau allweddol.
- Archwiliad adrodd ar wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Y Senedd sy'n dwyn Swyddfa Archwilio Cymru i gyfrif.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân acachub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfiaeth â gweddill gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gall gynnal arolygiadau arbennig o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi a chyrff cysylltiedig, Comisiwn y Senedda chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain, fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.